

Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP)

Coedwig Genedlaethol yng Nghymru Adolygiad Tystiolaeth Atodiad-7

ERAMMP Adroddiad-39 Atodiad-7: Aseiad Integredig

Emmett, B.A.², Beauchamp, K.¹, Jenkins, T.A.R.¹, Alison, J.², Bathgate, S.¹, Bell, C.², Braban, C.², Broome, A.¹, Bursnell, M.¹, Burton, V.¹, Dickie, I.³, Doick, K.J.¹, Evans, C.D.², Fitch, A.², Griffiths, R.², Hall, C.¹, Healey, J.R.⁴, Jones, L.², Keith, A.M.², Kerr, G.¹, Kuyser, J.³, Maskell, L.², Matthews, R.W.¹, Morison, J.¹, Nicoll, B.¹, Nisbet, T.¹, O'Brien, L.¹, Old, G.H.², Pagella, T.⁴, Perks, M.P.¹, Robinson, D.A.², Saraev, V.¹, Smart, S.M.², Smith, A.R.⁴, Siriwardena, G.M.⁵, Swetnam, R.⁶, Thomas, A.R.C.², Tye, A.⁷, Valatin, G.¹, Warren-Thomas, E.M.² & Wong, J.^{4/8}

¹ Forest Research, ² Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU, ³ effec, ⁴ Prifysgol Bangor, ⁵ Ymddiriedolaeth Adaryddiaeth Brydeinig, ⁶ Prifysgol Swydd Stafford, ⁷ Arolwg Daearegol Prydeinig, ⁸ Wild Resources Ltd

Cyfeirnod y Cleient: Llywodraeth Cymru / Contract C210/2016/2017
Fersiwn 1.0
Dyddiad: 28/08/2020



Wedi'i Ariannu gan:



Hanes y Fersiynau

Fersiwn	Diweddarwyd gan	Dyddiad	Newidiadau
1.0	Tîm Awduron	28/08/2020	Cyhoeddi

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn electronig yma / This report is available electronically at: www.erammp.wales/39

Neu trwy sganio'r cod QR a ddangosir / Or by scanning the QR code shown.



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

Y Gyfres	Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP) Coedwig Genedlaethol yng Nghymru - Adolygiad Tystiolaeth
Teitl	ERAMMP Adroddiad-39 Atodiad-7: Asesiad Integredig
Cleient	Llywodraeth Cymru
Cyfeirnod y Cleient	C210/2016/2017
Cyfrinachedd, hawlfraint a chopïo	© Hawlfraint y Goron 2020 Trwydded Llywodraeth Agored v3.0.
Manylion cyswllt CEH	Bronwen Williams Y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg y DU Canolfan yr Amgylchedd Cymru, Ffordd Deiniol, Bangor, Gwynedd, LL57 2UW 01248 374500 erammp@ceh.ac.uk
Awdur gohebu	Bridget Emmett, UKCEH bae@ceh.ac.uk
Awduron	Emmett, B.A. ² , Beauchamp, K. ¹ , Jenkins, T.A.R. ¹ , Alison, J. ² , Bathgate, S. ¹ , Bell, C. ² , Braban, C. ² , Broome, A. ¹ , Bursnell, M. ¹ , Burton, V. ¹ , Dickie, I. ³ , Doick, K.J. ¹ , Evans, C.D. ² , Fitch, A. ² , Griffiths, R. ² , Hall, C. ¹ , Healey, J.R. ⁴ , Jones, L. ² , Keith, A.M. ² , Kerr, G. ¹ , Kuyser, J. ³ , Maskell, L. ² , Matthews, R.W. ¹ , Morison, J. ¹ , Nicoll, B. ¹ , Nisbet, T. ¹ , O'Brien, L. ¹ , Old, G.H. ² , Pagella, T. ⁴ , Perks, M.P. ¹ , Robinson, D.A. ² , Saraev, V. ¹ , Smart, S.M. ² , Smith, A.R. ⁴ , Siriwardena, G.M. ⁵ , Swetnam, R. ⁶ , Thomas, A.R.C. ² , Tye, A. ⁷ , Valatin, G. ¹ , Warren-Thomas, E.M. ² & Wong, J. ^{4/8}
Awduron ac adolygywyr cyfrannol	¹ Forest Research, ² UKCEH, ³ eftec, ⁴ Prifysgol Bangor, ⁵ YAB, ⁶ Prifysgol Swydd Stafford, ⁷ ADB, ⁸ Wild Resources Ltd Yn ogystal â'r tîm awduro uchod; rydym yn ddiolchgar am gyfraniadau gan: Anthony Geddes ¹ , Darren Moseley ² , Ewan Mackie ² , Geoff Hogan ² , Jerry Langford et al. ² , Keith Kirby ⁴ , Marc Sayce ² , Richard Baden ²
	¹ Confor, ² Forest Research, ³ Woodland Trust, ⁴ Prifysgol Rhydychen
Sut i ddyfynnu (hir)	Emmett, B.A., Beauchamp, K., Jenkins, T.A.R., Alison, J., Bathgate, S., Bell, C., Braban, C., Broome, A., Bursnell, M., Burton, V., Dickie, I., Doick, K.J., Evans, C.D., Fitch, A., Griffiths, R., Hall, C., Healey, J.R., Jones, L., Keith, A.M., Kerr, G., Kuyser, J., Maskell, L., Matthews, R.W., Morison, J., Nicoll, B., Nisbet, T.R., O'Brien, L., Old, G.H., Pagella, T., Perks, M.P., Robinson, D.A., Saraev, V., Smart, S.M., Smith, A.R., Siriwardena, G.M., Swetnam, R., Thomas, A.R.C., Tye, A., Valatin, G., Warren-Thomas, E.M. & Wong, J. (2020). <i>Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP)</i> . ERAMMP Adroddiad-39: Coedwig Genedlaethol yng Nghymru - Adolygiad Tystiolaeth Atodiad-7: Asesiad Inegredig. Adroddiad i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017)(Canolfan Ecoleg & Hydroleg y DU Prosiect 06297)
Sut i ddyfynnu (byr)	Emmett, B.A. et al. (2020). Adroddiad-39: Tystiolaeth Coedwig Genedlaethol Atodiad-7. Adroddiad i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017)(UKCEH 06297)
Cymeradwywyd gan	Lloyd Harris James Skates

Byrfoddau a Ddefnyddir yn yr Atodiad hwn

ADB	Arolwg Daearegol Prydeinig
CDCDU	Cyddfederasiwn Diwydiannau Coetir y DU
CFC	Cynllun Ffermio Cynaliadwy
COA	Cyfansoddyn Organig Anweddol
eftec	Ymgynghoriaeth Economeg ar gyfer yr Amgylchedd
ERAMMP	Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig
SGEI	Systemau Goedwriaethol Effaith Isel
UKCEH	Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU
YAB	Ymddiriedolaeth Adaryddiaeth Brydeinig

Ymhelaethir ar fyrfoddau a rhai o'r termau technegol a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yng ngeirfa'r rhaglen:
<https://erammp.cymru/geirfa> (Cymraeg) <https://erammp.wales/en/glossary> (Saesneg)

Cynnwys

1 Asesiad Integredig.....	2
1.1 Cyfaddawdau	2
1.2 Oediadau amser a gwaelodlin sy'n newid	3
1.3 Materion gofodol a materion cyd-destunol eraill.....	3
1.4 Rhwystrau economaidd cymdeithasol, a sgiliau.....	3
1.5 Cadernid yn erbyn newid hinsawdd	4
2 Tabl Crynodeb.....	5
2.1 Camau nesaf	5

1 ASESIAD INTEGREDIG

Bwriad yr Asesiad Integredig hwn yw tynnu sylw at bwysigrwydd nifer o themâu trawsbynciol a allai effeithio ar ddarparu buddion a ddaw o ganlyniad creu a rheoli coetir. Adnabuwyd y themâu hyn gan arbenigwyr wrth iddynt gynnal eu hadolygiadau. Lluniwyd tabl crynodeb i fynegi'r materion mewn fformat gweledol gan ddefnyddio'r dull a ddatblygwyd ar gyfer y Pecyn Tystiolaeth ERAMMP ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (ERAMMP Adroddiad-10a: *Dadansoddiad Integredig*).

1.1 Cyfaddawdau

- I. Mae'n anochel y bydd creu cynefin coetir newydd ar draul y tir sydd ar gael ar gyfer amaethyddiaeth, bioamrywiaeth nad yw mewn coetir, isadeiledd a thir adeiladu. Hyd yn oed gydag amaethgoedwigaeth mae lleihad yn y tir sydd ar gael ar gyfer cnydau yn gyffredin, er y gallai buddion eraill wrthbwysu hyn.
- II. Mae'n rhaid ystyried bioamrywiaeth sy'n cael ei dadleoli o ganlyniad i greu ac ehangu coetir. Sut yr ydym am flaenoriaethu gwerthoedd cymharol wahanol rywogaethau â blaenoriaeth a rhywogaethau cyffredin wrth symud ymlaen, yn enwedig gyda newid hinsawdd barhaus?
- III. Yn aml ceir awydd i warchod cymunedau eiconig trwy geisio cynnal eu casgliadau rhywogaethau yn llym a'u cadw i'r dyfodol; ond mae angen pwysu a mesur hwn yn ofalus yn erbyn y cynnydd posibl mewn bioamrywiaeth neu wytnwch i broblemau amgylcheddol yn y presennol a'r dyfodol sy'n codi o ganiatáu amrywiaethu.
- IV. Mae cynyddu cysylltedd â gwerth ar gyfer rhywogaethau ar gyrion coetir yn bennaf, ond gallai beri risg o gynnydd yn y llif o blâu a chlefydau (gweler hefyd y cyd-destun gofodol).
- V. Gall creu coetir mewn lleoliad penodol effeithio nid yn unig y lleoliad hwnnw ond ar raddfa tirwedd ehangach. Gall effeithiau fod yn gadarnhaol neu'n negyddol. Mae'n rhaid ystyried felly, agosrwydd coetir at gynefinoedd eraill. Er enghraifft, mae rhywogaethau adar sydd angen cynefin agored mewn perygl o gael eu hysglyfaethu gan rywogaethau sy'n defnyddio coetir fel gorchudd (gweler hefyd y cyd-destun gofodol).
- VI. Mae'r cynhyrchiant o ronynnau o'r ehangiad mawr yn y defnydd o danwydd pren (a'r ddibyniaeth bresennol ar fewnforion, er y gellir mynd i'r afael â hyn mewn pryd), yn awgrymu cyfaddawdau rhwng gwasanaethau lliniaru hinsawdd a gwaredu llygredd. Mae hefyd risg o ddargyfeirio pren o farchnadoedd coed.
- VII. Dylid ystyried dewis rhywogaethau wrth ddefnyddio coed i wella gwaith gwaredu llygryddion, gan fod adroddiadau o amrywiaeth tymor byr yn y crynodiad pail a gynhyrchir gan rai rhywogaethau yn gysylltiedig â phryniant meddyginiaeth alergedd, symptomau asthma, ac ymweliadau cysylltiedig ag asthma ag adrannau brys.
- VIII. Mae Cyfrifon Cyfalaf Naturiol yn rhoi ffynhonnell ychwanegol o dystiolaeth i gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau pan fydd y cyfaddawdau hyn yn cael eu hystyried, ond mae cyfrifon bob amser yn rhannol ac mae dulliau'n cael eu mireinio'n barhaus, felly nid ydynt eto'n addas (ac ni fydd byth, byddai rhai'n dadlau) ar gyfer bioamrywiaeth.

1.2 Oediadau amser a gwaelodlin sy'n newid

- I. Beth yw'r waelodlin neu wrthffactif ar gyfer llawer o ddatganiadau a wneid? A yw buddion i goetiroedd brodorol yn benodol, neu a ydynt hefyd yn cael eu cyflenwi gan gynefinoedd a defnyddiau tir eraill e.e. mannau gwyrdd yn gyffredinol?
- II. Mae newid parhaus yn digwydd ac felly nid yw'r sefyllfa sydd ohoni yn realistig beth bynnag ac efallai nad dyma'r cymharydd mwyaf addas.
- III. Pryd ddaw gwirediad buddion? Mae oediadau amser mewn nifer o ganlyniadau, gan gynnwys oedi amser ecolegol i rywogaethau boblogi cynefin newydd a chyfraddau twf coed araf yn cyflawni dal a storio carbon. Mae angen ystyried hyn er mwyn cymedroli disgwyliadau.

1.3 Materion gofodol a materion cyd-destunol eraill

- I. Mae agosrwydd coetiroedd at bobl yn cyfyngu neu'n cynyddu llawer o'r buddion y gallant eu darparu yn sylfaenol, gan gynnwys effeithiolrwydd cael gwared â llygryddion aer a'r buddion iechyd cysylltiedig, cael gwared ar halogyddion sy'n trosglwyddo i gyrsiau dŵr, yn ogystal â buddion diwylliannol niferus, gan gynnwys hamddena.
- II. Gall y pellter i weithfeydd prosesu coed a safleoedd cynhyrchu eraill gyfyngu ar botensial economaidd, amgylcheddol a lliniaru hinsawdd rhai opsiynau. Mae gweithrediadau cynaeafu a llwybrau cludo pren yn cael effaith ar gymunedau lleol a chymunedau ar hyd y llwybr, yn ogystal â thwristiaeth.
- III. Mae ymgorffori mwy o goed yn y system amaethyddol gan ddefnyddio dull systemau, yn ogystal ag o fewn y lleoliad trefol, yn darparu rhai cyfleodd a rhai risgiau.
- IV. Gall maint coetir gael effeithiau ar rai gwasanaethau ecosystem, ac yn benodol ar yr achos economaidd dros blannu newydd a rheoli yn y dyfodol.
- V. Mae'r math o goetir a dull rheoli yn cael effaith sylweddol ar estheteg tirwedd, llawer o fuddion diwylliannol, cyfraddau dal a storio carbon, economeg a gwytnwch wrth symud ymlaen. Dylai dulliau rheoli cael eu halinio'n glir ag amcanion penodol ar bob achlysur.
- VI. Weithiau gall coedwigoedd, coed a choetiroedd beri risg i sectorau a defnyddwyr tir eraill a allai gynyddu gyda newid hinsawdd; er enghraifft, gallai taflad gwynt, tanau gwyllt a thirlithriadau niweidio eiddo, trafniadaeth neu isadeiledd. Gellir lliniaru'r effeithiau hyn trwy reoli coed a choetir yn briodol ger ffyrdd, rheilffyrdd ac adeiladau, a lleoli a rheoli coetiroedd newydd yn briodol, ac mae'n rhaid gwneud felly.
- VII. Pwysleisiwyd gan lawer pwysigrwydd asesiadau safle-benodol wedi'u gosod gyda chyd-destun tirwedd. Nid yw un maint yn ffitio pawb.

1.4 Rhwystrau economaidd cymdeithasol, a sgiliau

- I. Mae llawer o adolygiadau yn tynnu sylw at fater yr angen am ddulliau aflonyddgar os yw'r newid sylweddol sydd ei angen i gynyddu creu a rheoli coetir am gael ei gyflawni.
- II. Mae angen rheoli disgwyladau yng nghylch y graddfeydd amser ac adnoddau sydd eu hangen i gyflawni amcanion adfer a chreu coetir.
- III. Ar gyfer rhai coetiroedd, mae cost ymyriad yn fwy na'r refeniw posibl, sy'n arwain at ddiffyg rheolaeth. Mae newid standiau a reolir yn draddodiadol yn rhai mwy gwydn sydd â dull rheoli agosach at natur hefyd yn dod â chostau uwch, canfyddiad cynyddol o risg, a'r gofyn am set sgiliau gwahanol.
- IV. Mae ailgyflwyno coetir i'n gwlad goediog naturiol yn weithred nad yw'n cael ei hystyried fel un 'naturiol' neu ddymunol gan rai oherwydd cenedlaethau o ddefnydd bugeiliol o'r tirwedd, yn enwedig yn yr ucheldiroedd, ac effaith cymynrodd planhigfeydd conwydd a grëwyd ar ôl y rhyfel yng nghanol yr ugeinfed ganrif.
- V. Mae perygl o greu coedwigoedd newydd nad oes croeso iddynt neu sy'n cael eu tanbriso os nad yw cymunedau sy'n lleol i'r safle yn chwarae rhan mewn rhyw ffordd yn nhrefodaethau cysyniadu, dylunio a chynllunio ar gyfer y goedwig.

1.5 Cadernid yn erbyn newid hinsawdd

- I. Gall newid yn yr hinsawdd effeithio ar wasanaethau ecosystem fuddiol a ddarperir gan goetiroedd. Bydd cynnydd mewn rhai buddion, megis oeri trefol a torlannol, er y gall y posibilrwydd o gynhyrchu mwy o baill a Chyfansoddion Organig Anweddol (COA) waethygu rhai cyflyrau meddygol ac felly dylid eu hystyried.
- II. Dylid ystyried ystod o opsiynau i ddewis rhywogaethau sy'n addas ar gyfer hinsoddau yn y dyfodol ac opsiynau rheoli i wella ansawdd, ardal a chysylltedd, er y gall cysylltedd beri cynnydd yn y llif o blâu a chlefydau.

2 TABL CRYNODEB

Lluniwyd tabl crynodeb i roi trosolwg gweledol o'r materion hyn i gyd-fynd â'r dull tebyg a gymerwyd ar gyfer y Pecyn Tystiolaeth ERAMMP ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (ERAMMP Adroddiad-10a: Dadansoddiad Integredig). Ystyriwyd cyfanswm o 14 o gyfleoedd creu a rheoli coetir ar gyfer 7 categori o fuddion (sydd wedi'u rhannu'n 11 is-gategori). Defnyddir cod lliw ar gyfer pob cyfle ac asesiad budd:

- Glas: cyfleoedd creu a rheoli coetir sy'n cael eu hystyried sydd fwyaf tebygol o sicrhau buddion
- Oren: gall buddion cael eu gwireddu ond gall tystiolaeth fod yn gyfyngedig a / neu mae dibyniaeth y mae angen ei hystyried
- Pinc: mae naill ai dyfarniad arbenigol neu dystiolaeth yn dangos nad oes fawr o fudd yn debygol a / neu gyfaddawd pwysig posibl i'w ystyried

I grynhoi, mae'r canfyddiadau'n nodi:

- Nid oedd unrhyw gyfle i greu neu reoli coetir heb rai buddion. Mae pob amser rhywfaint o fudd ar gyfer naill ai rhywogaethau coetir arbenigol, cynhyrchiant coed neu ganlyniad arall.

Fodd bynnag...

- Dim ond 3 chyfle oedd heb unrhyw asesiadau 'Pinc' sy'n nodi y gallai cyfaddawdau pwysig posibl bodoli ar gyfer y mwyafrif o gyfleoedd y byddai angen eu hystyried cyn cymryd unrhyw gamau.

Ar y cyfan, o'r 14 o gyfleoedd ac 11 o fuddion a ystyriwyd; roedd 32 canlyniad yn 'Las'; 86 yn 'Oren' ac 13 yn 'Binc'. Mae trechedd asesiadau 'Oren' yn tynnu sylw at fater difrifol mewn llawer o gyfleoedd, sef ddibyniaeth ar gyd-destun, ac y mae'n rhaid ei ystyried cyn gweithredu. Yr her felly yw darparu fframwaith sy'n cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau mewn cyd-destun lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan sicrhau canlyniadau cost a budd digonol i gyfiawnhau gweithredu; a bod ystyriaeth haeddiannol yn cael ei rhoi i unrhyw gyfaddawdau yn y tymor byr a'r tymor hir, ar draws gwahanol raddfeydd gofodol ac ar gyfer gwahanol sectorau o'r gymuned.

2.1 Camau nesaf

Argymhellir y dylai'r camau nesaf gynnwys adolygu ac integreiddio tystiolaeth a barn ymhellach ar draws ystod eang o randdeiliaid, gan sicrhau bod tryloywder clir o ran gwendidau yn y dystiolaeth; lle mae dehongliad o'r sylfaen dystiolaeth hon yn wahanol; a lle mae angen ystyried dyfarniadau gwerth gwahanol.

Tabl 1: Crynodeb o fuddion posibl gwahanol gyfleoedd o greu, ehangu a rheoli coetir a'u cyd-ddibyniaeth â'r math o goetir, rheolaeth a'u cyd-destun gofodol ac amserol. Rhagdybiaeth allweddol yw y byddai'r holl weithredu yn y coetir yn dilyn Safonau Coedwigaeth y DU.

Allwedd Lliw:

- **Glas** = Cyflenwi buddion a dderbynnir gan y gymuned ar raddfa a allai arwain at newid sylweddol cyffelyb i gyfraddau cyfredol, os cymerir hwy ar raddfa ddigonol.
- **Oren** = Mae cyfraniad at newid sylweddol wrth ddarparu budd-daliadau yn bosibl, ond mae rhywfaint o anghytuno rhwng cymunedau ynghylch cyfaddawdau; a / neu mae yna ddibyniaeth neu gyd-destun gofodol neu amserol y byddai angen ei ystyried; a / neu dystiolaeth sy'n gyfyngedig.
- **Pinc** = Nid yw barn arbenigol neu dystiolaeth yn cefnogi unrhyw gyfraniad sylweddol y tu hwnt i rôl fach i wireddu budd; a / neu mae cyfaddawd mawr, neu ddibyniaeth ofodol neu amserol, sy'n cyfyngu'r cyfraniad at ddarparu buddion; a / neu mae rhai anfanteision posibl y mae'n rhaid eu hasesu cyn cymryd unrhyw gamau.

Sylwer: '+' sy'n nodi cryfder budd; '-' sy'n nodi cryfder anfantais; '0' sy'n nodi dim budd net; '+/-' sy'n nodi lle y gellir gwireddu buddion ac anfanteision (cod Ambr yw hwn, trwy ddiffiniad); ac '0/-' nodi dim budd net na photensial ar gyfer anfantais.

- Gwyn = ddim yn berthnasol i ymyriad, neu heb gael ei ystyried oherwydd cyfyngiadau amser.

Cyfle	Math	Dwyster Rheoli	Bioamrywiaeth		Gwerth economaidd nwyddau ¹	Ansawdd Aer		Lliniaru hinsawdd	Dŵr		Cadernid	Gwasanaethau diwylliannol	
			Rhywogaethau brodorol sy'n gysylltiedig â choetir	Rhywogaethau brodorol eraill	Potensial uchaf o'r ystod wedi'i modelu	Cael gwared ar ronynnau ^{1,2}	Cynhyrchu alergenau / COA		Lliniaru llifogydd	Ansawdd dŵr		Pob agwedd	Hamdden / iechyd corfforol ²
Creu coetir	Conwydd cynhyrchiant	Teneuo/cwmpo	+	0/-	+++	++		++	+	+/-	+/-	+	+/0/-
		Dim teneuo/dim cwmpo	+	0/-	++	++		++	+	+/-	-	+	+/0/-
		SGEI	+	0/-	++	++		++	+	+/-	+	++	++/+/0/-

Cyfle	Math	Dwyster Rheoli	Bioamrywiaeth		Gwerth economaidd nwyddau ¹	Ansawdd Aer		Lliniaru hinsawdd	Dŵr		Cadernid	Gwasanaethau diwylliannol	
			Rhywogaethau brodorol sy'n gysylltiedig â choetir	Rhywogaethau brodorol eraill		Potensial uchaf o'r ystod wedi'i modelu	Cael gwarded ar ronynnau ^{1,2}		Cynhyrchu alergenau / COA	Lliniaru llifogydd		Ansawdd dŵr	Pob agwedd
	Llydanddail cynhyrchiol	Teneuo/cwmpo	++	0/-	+++	++		++	+	+/-	+	++	++
		Systemau Goedwriaethol Effaith Isel	+++	0/-	++	++		++	+	+/-	++	++	+++
		Coedwigaeth Cylchdro Byr	+++	0/-	++	+		++	+	+	0	0	+/-
		Amaeth-goedwigaeth	++	+/-	++	++		+	+	+	+	+	++
	Llydanddail mwynder	Teneuo/dargadwedd	+++	-	++	++		++	+	+	+	++	+++
		Systemau Goedwriaethol Effaith Isel	+++	-	++	++		++	+	+	+	++	+++
	Rheoli coetiroedd sydd heb eu rheoli'n ddigonol		+		+			0			+	+/0	+/-
	Ehangu coetir		++	-	++	++		++	+	+	+	++	+/-
	Creu coetir er mwyn cysylltedd a nodweddion coedlog bach		++	+	+	+		+	+	+	++/-		++
	Coed trefol a 'peri-urban'		+	+		++	0/-	+	+	+	+		++/0/- ⁴
	Addasu rhywogaethau a chyfraddau tyfiant y coetiroedd presennol		+/0/-		++	+		+++	+	+	+	+/0/-	

- 1 Mae cynhyrchion yn cynnwys ystod eang o gynhyrchion, o bren wedi'i lifio, adeiladu, mwydion, tanwydd, ffrwythau a chnau.
- 2 Dibyniaethau gofodol a materion cyd-destunol eraill.
- 3 Mae hyn yn dibynnu ar yr hyn a ystyrir yn waelodlin neu'n wrthffactif. Gall plannu coedwig gonwydd fod yn fuddiol o'i chymharu â rhai tirweddau? Er enghraifft, mae conwydd yn well o ran tynnu llygryddion aer na choed llydanddail ond mae'r ddau yn llawer gwell na glaswellt..
- 4 Gall coed trefol gynyddu gwerth eiddo ond gallant hefyd achosi baich ariannol o ran cynnal a chadw isadeiledd (dail; difrod gan wreiddiau ac ati).

Tudalen wag.

Swyddfa'r Rhaglen ERAMMP
UKCEH Bangor
Canolfan Amgylchedd Cymru
Ffordd Deiniol
Bangor, Gwynedd
LL57 2UW
+ 44 (0)1248 374500
erammp@ceh.ac.uk

www.erammp.cymru

www.erammp.wales